

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Mae'n deg i ddweud ein bod mewn cyfnod hynod o bryderus am ba mor gyflym y mae'r feirws yn lledaenu yn ein cymunedau. Diolch unwaith eto i bob un o'n rhieni sydd yn sicrhau bod ein disgyblion yn dilyn y mesurau diogelwch cofid yma yn ffyddlon, sydd mor allweddol i iechyd a lles pob un ohonom.

Yn dilyn y [datganiad yma](#) gan Lywodraeth Cymru brynhawn yma, byddwn yn symud at ddysgu o bell o ddydd Llun 14/12/20 hyd at ddiwedd y tymor ar y 18/12/20. Mae hwn yn golygu'r canlynol ym Mryn Tawe:

- Bydd yr ysgol ar agor fel arfer ar gyfer staff a byddwn ar gael i gefnogi ein disgyblion a'n rhieni o bell gydag unrhyw gais neu ymholiad. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu gyda ni i drafod unrhyw faterion.
- Bydd grwpiau o ddisgyblion penodol yn mynychu'n ddyddiol ar gyfer cefnogaeth llesiant. Byddwn yn cysylltu yn uniongyrchol gyda rhieni i wneud y trefniadau yma.
- Bydd disgyblion ym mlynnyddoedd 7 ac 8 yn unig, sydd yn blant i weithwyr hanfodol, yn cael y cyfle i fynychu. Byddwch yn derbyn neges destun uniongyrchol gyda chyswllt i holiadur er mwyn ein hysbysu o'ch angen ar gyfer yr wythnos. Bydd hwn yn ein caniatâi i allu cynllunio darpariaeth ar gyfer ein disgyblion. Felly, gofynnwn i chi ei gwblhau erbyn 15:00 ddydd Gwener yr 11/12/20 os fydd angen cefnogaeth arnoch?

Bydd pob disgybl yn derbyn gwahoddiad i'w wersi wythnos nesaf drwy lwyfan Teams ac mae **disgwyliad clir y bod pob disgybl yn mynychu pob gwers**. Fe fyddwn yn cymryd cofrestrau ac yn cysylltu gyda rhieni disgyblion sydd ddim yn mynychu. Mae sicrhau bod disgyblion wrth eu gwaith yn ddyddiol ac nid yn cymysgu y tu allan yn ein cymunedau yn allweddol i amddiffyn ein gilydd ac i fynd i'r afael gyda'n sefyllfa bresennol.

Fel arfer ar ddiwedd y tymor, byddwn yn cynllunio gweithgareddau hwylus ar gyfer ein disgyblion fydd yn digwydd drwy gyfrwng eu gwersi yn ystod yr wythnos. Bydd y rhain yn dod ac ychydig o naws y Nadolig fel y gallwn barhau i ddathlu'n rhithiol gyda'n disgyblion wrth baratoi ar gyfer yr Ŵyl. Gobeithio cewch y cyfle i wyluo ein perfformiadau rhithiol wrth ddathlu'r Ŵyl.

Os oes unrhyw gwestiwn gennych ynghŷn â'r uchod, peidiwch ag oedi i gysylltu gyda ni yn yr ysgol i drafod.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur

